Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 21 Mai 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(133)v5

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**Cwestiynau Brys**

Cwestiwn Brys 1

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa eglurhad sydd gan y Gweinidog dros y dirywiad yn safonau addysg ym Mlaenau Gwent ers penodi comisiynwyr ddwy flynedd yn ôl?

Cwestiwn Brys 2

**Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn Nghymru yn sgil llythyr Michael Gove, Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ddoe?

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Diwygiad Lles (45**

**munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Law yn Llaw at Iechyd - diweddariad chwe mis (45 munud)**

**5. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle (30 munud)**

**6. Dadl: Hyrwyddo Twf Gwyrdd drwy Effeithlonrwydd Adnodd (60 munud)**

NDM5243 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod gwerth hybu twf gwrdd fel un o'r prif sbardunau i'n gweledigaeth ar gyfer dyfodol Cymru.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:

Yn cydnabod y potensial enfawr ar gyfer twf gwyrdd yng Nghymru.

Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddatblygu'r economi werdd.

Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:

Yn nodi amcangyfrif y Gymdeithas Ynni Adnewyddadwy, sef y gallai tua 400,000 o swyddi ledled y DU gael eu cefnogi gan y diwydiant ynni adnewyddadwy erbyn 2020, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd busnes gwyrdd ar gyfer twf economaidd.

Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd mentrau gwyrdd wrth gefnogi’r gwaith o adfywio cymunedau a manteision eang cynlluniau cymunedol gwyrdd.

**Gwelliant 5 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn annog Llywodraeth Cymru i lunio strategaeth drosfwaol glir ar gyfer twf gwyrdd sy’n cael ei chefnogi gan dargedau sy’n seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd â chanllawiau clir i ddatrys gwrthdaro rhwng blaenoriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

**Gwelliant 6 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi rhaglen gyda chanlyniadau y gellir eu mesur i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru.

**Gwelliant 7 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Coleg Adeiladu Sgiliau Gwyrdd i wneud Cymru yn ganolfan ragoriaeth.

**Gwelliant 8 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ‘trywydd’ a chynllun gweithredu, gyda thargedau cynhyrchu, ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy.

**Gwelliant 9 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu’r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu’r cymorth y gall ei gynnig i fusnesau Cymru er mwyn iddynt fanteisio ar y cyfleoedd y mae’r buddsoddiad hwn yn ei greu ar gyfer y gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

**Gwelliant 10 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd sylfaen sgiliau gwyrdd i ddatblygu cadwyn gyflenwi gadarn ac effeithiol yng Nghymru, er mwyn cefnogi twf gwyrdd yn economi ehangach Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r cyfleoedd academaidd a galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru i ddatblygu'r sgiliau i gefnogi swyddi gwyrdd.

**Gwelliant 11 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu dangosyddion perfformiad penodol i fonitro cynnydd twf gwyrdd yng Nghymru, er enghraifft:

1. Diweddaru ffigurau Gwerth Ychwanegol Crynswth bob chwarter
2. Ystadegau busnes sy'n canolbwyntio ar gategorïau craidd yn Rhaglen Adnewyddu'r Economi
3. Ystadegau cyflogaeth yn y gweithle ar gyfer yr economi werdd.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 22 Mai 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 16 Mai 2013 i'w hateb ar 21 Mai 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **David Rees (Aberafan)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi gofal iechyd yn y gymuned yng Nghymru? OAQ(4)1087(FM)

2. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi cleifion sydd â chanser yng Nghymru? OAQ(4)1069(FM)

3. **Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y cynlluniau arfaethedig i werthu'r Post Brenhinol? OAQ(4)1074(FM)

4. **Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Gronfa Technolegau Iechyd? OAQ(4)1085(FM)

5. **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**: Pa gamau pellach y mae'r Prif Weinidog wedi eu cymryd yn rhinwedd ei gyfrifoldeb strategol dros bolisi ynni yn dilyn ei gyhoeddiad ar 1 Mai 2013? OAQ(4)1071(FM)W

6. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch darganfod clefyd Coed Ynn mewn coed yng Nglan y Fferi, Sir Gaerfyrddin? OAQ(4)1075(FM)

7. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnwys ei gyfarfod diwethaf gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? OAQ(4)1072(FM)

8. Byron Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol sector twristiaeth Cymru? OAQ(4)1081(FM)

9. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1068(FM)

10. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau? OAQ(4)1077(FM)

11. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1084(FM)

12. Mick Antoniw (Pontypridd): Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â Bil Cymru, a gafodd ei gynnig yn Araith y Frenhines? OAQ(4)1076(FM)

13. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i gefnogi gwasanaethau gofal cartref mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)1082(FM)

14. Aled Roberts (Gogledd Cymru): Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o lefelau staffio nyrsys yng Nghymru? OAQ(4)1079(FM)W

15. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru): Pa mor fodlon yw'r Prif Weinidog bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i gwmnïau yng

Nghymru wrth brynu nwyddau a gwasanaethau, oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn atal hynny? OAQ(4)1073(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Toriad: Dydd Llun 27 Mai 2013 – Dydd Sul 2 Mehefin 2013

Dydd Mawrth 4 Mehefin a dydd Mercher 5 Mehefin 2013

Dydd Mawrth 11 Mehefin a dydd Mercher 12 Mehefin 2013

Dydd Mawrth 18 Mehefin a dydd Mercher 19 Mehefin 2013

*********************************************************************

Dydd Mawrth 4 Mehefin 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu o ran Pryfed Peillio (30 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol y Bil Teithio Llesol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Teithio Llesol (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 5 Mehefin 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl Rheol Sefydlog 26.44 Cyfnod 3 ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) (60 munud)
  "Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig: Cynnig Rheol Sefydlog 26.47 Cyfnod 4 i gymeradwyo'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Russell George (Sir Drefaldwyn) (30 munud)

Dydd Mawrth 11 Mehefin 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Datganiad Polisi ar Addysg Uwch (45 munud)
- Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau Cwblhau Cymreig Amgen) 2013 (15 munud)

Dydd Mercher 12 Mehefin 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Leanne Wood (Canol De Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 18 Mehefin 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Strategaeth Pysgodfeydd Cymru (30 munud)

- Dadl Cyfnod 3 ar Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44 (90 munud)
  "Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.
  Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig:
  Cynnig Cyfnod 4 i gymeradwyo Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.47

Dydd Mercher 19 Mehefin 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Meysydd Carafannau Gwyliau (Cymru) (Darren Millar) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru) (30 munud)